Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018**
DYDDIAD	**28 Tachwedd 2018**
GAN	**Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio
Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2004

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae'r OS (pan fônt yn berthnasol i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

Diben y diwygiadau

Mae'r Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018 yn rhoi pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wneud penderfyniadau cyfiawnhau ar ffurf rheoliadau ar gyfer dosbarthau a mathau o arferion sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio at ddibenion y Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2004

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://beta.parliament.uk/statutory-instruments/v4pTq3gi

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i

weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.